**CYFARFOD COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU A GYNHALIWYD AR 25 MEDI 2018 YN NHŶ HASTINGS**

**Yn bresennol:** Mr Owen Watkin (Cadeirydd); Mr Ceri Stradling; Mr David Powell; Mrs Julie May a Mr Theodore Joloza.

**Swyddogion CFfDLC a oedd yn bresennol:** Mr Steve Halsall (Prif Weithredwr); Mr Matt Redmond (Dirprwy Brif Weithredwr); Mr Dave Carr (Rheolwr Cyllid); Mrs Cher Cooke (Swyddog Arolygon); Mr Farhan Khan (Swyddog Arolygon); Mr Ross Evans (Swyddog Arolygon)

**Amser dechrau:** 10:40
**Amser gorffen:** 14:50

**Ymddiheuriadau:**

**1. Datganiadau o Fuddiant**

1.1. Ni wnaed unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

**2. Brîff y Cadeirydd**

2.1. Crybwyllodd y Cadeirydd fod y Comisiwn yn disgwyl Llythyr Cylch Gwaith diwygiedig ac y byddai adroddiad ar y Llythyr Cylch Gwaith diwygiedig yn cael ei gyflwyno yn un o gyfarfodydd y Comisiwn yn y dyfodol.

**3. Cofnodion cyfarfod y Comisiwn a gynhaliwyd ar 21 Awst 2018**

3.1. **Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Awst 2018 fel cofnod cywir o'r materion a ystyriwyd.

**4. Materion yn codi**

4.1. Ystyriwyd yr adroddiad, dyddiedig Medi 2018, gan y Dirprwy Brif Weithredwr ar Faterion yn Codi.

4.2. **Penderfynwyd** derbyn yr Adroddiad yn ei gyfanrwydd, gan nodi'r mater i'w drafod yn ddiweddarach yn y cyfarfod, a nodwyd cynnydd cyfredol ar y mater canlynol:

- **(Mater 3)** Adeiladau – mae'r brydles newydd wedi'i drafftio ac mae bellach yn aros am gytundeb gan Ethical Property.
- **(Mater 5)** Buddsoddwyr Mewn Pobl – Caiff yr adroddiad ei gyflwyno yng nghyfarfod y Comisiwn ym mis Hydref.

- **(Mater 6)** Adroddiad Blynyddol – Mae'r adroddiad yn aros am y weithdrefn o'i gyflwyno ger bron y Cynulliad cyn y gellir ei gyhoeddi.

- **Adolygiad Cymorth Graddio a Gwerthuso Swyddi (JEGS)** – Crybwyllwyd y byddai'r adolygiad yn dechrau maes o law.

- **Staffio** – Crybwyllwyd bod Huw Blacker wedi'i benodi'n Swyddog Arolygon ac y byddai Matthew Farrell yn ymuno â'r Comisiwn ar secondiad.

## 5. Dadansoddiad o Arolygon Etholiadol

5.1. Ystyriwyd yr Adroddiad, dyddiedig 13 Medi 2018, gan y Dirprwy Brif Weithredwr.

5.2. **Nododd** y Comisiwn yr adroddiad a chytunwyd y byddai'r Ysgrifenyddiaeth yn parhau i fonitro arolygon yn gyffredinol, ac yn adrodd arnynt, fel y bo'n briodol.

## 6. Arolwg Etholiadol Torfaen

6.1. Ystyriwyd Adroddiad Argymhellion Terfynol Torfaen, dyddiedig 24 Awst 2018, gan y Swyddog Arolygon.

6.2. **Cytunwyd** ar nifer o newidiadau i destun safonol yr adroddiad terfynol, er mwyn rhoi mwy o eglurder ynghylch y ffactorau perthynol a aseswyd wrth benderfynu ar argymhellion, y cânt eu cymhwyso ym mhob adroddiad argymhellion terfynol yn y dyfodol hefyd.

6.3. **Nododd** a **chytunodd** y Comisiwn ar yr adroddiad, yn amodol ar nifer o newidiadau.

## 7. Arolwg Cymunedol Sir Fynwy

7.1. Ystyriwyd Adroddiad Argymhellion Terfynol Arolwg Cymunedol Cyngor Sir Fynwy, dyddiedig 17 Medi 2018, gan y Swyddog Arolygon.

7.2. Aeth y Swyddog Arolygon trwy brif ran yr adroddiad fesul adran.

7.3. **Cytunwyd** nad oedd angen y rhagair ac y dylid ei ddileu.

7.4. **Nododd** a **chytunodd** y Comisiwn ar yr adroddiad, yn amodol ar nifer o ychwanegiadau ac addasiadau.

7.5. Diolchodd y Comisiwn i'r Swyddog Arolygon am ei waith wrth baratoi'r adroddiad.

## 8. Arolwg Etholiadol Pen-y-bont ar Ogwr

8.1. Ystyriwyd yr Adroddiad, dyddiedig 05 Medi 2018, gan y Swyddog Arolygon.

8.2. Penderfynodd y Comisiwn gadw at ei benderfyniad blaenorol, sef Opsiwn 1 ar gyfer ardaloedd Llangrallo Uchaf, Pencoed, Llansanffraid-ar-Ogwr ac Ynysawdre, a chynnwys yn yr Adroddiad y sail ar gyfer penderfynu ar nifer arfaethedig y cynghorwyr.

8.3. **Nododd** a **chytunodd** y Comisiwn ar weddill yr Adroddiad.

## 9. Calendr Digwyddiadau

9.1. **Nododd** y Comisiwn y calendr digwyddiadau cyfredol.

## 10. Polisïau Defnyddwyr a Diogelwch TGCh

10.1. Ystyriwyd yr Adroddiad, dyddiedig 17 Medi 2018, gan y Rheolwr Cymorth Busnes.

10.2. **Nododd** a **chytunodd** y Comisiwn ar yr adroddiad, yn amodol ar rai newidiadau i'r arddull a'r iaith.

## 11. Rheoli Risg – Y Gofrestr Risgiau

11.1. Ystyriwyd yr Adroddiad, dyddiedig 13 Medi 2018, gan y Rheolwr Cyllid. **Cytunodd** y Comisiwn ar y newidiadau canlynol:

- Ychwanegu camau gweithredu lliniarol at risg CR4, bod yr Ysgrifenyddiaeth yn cynnal dadansoddiad o effaith ymestyn yr etholfraint ar y rhaglen arolygon etholiadol; a
- Newid disgrifiad risg CR7 i 'Ailstrwythuro Posibl Llywodraeth Leol'.

11.2. **Nododd** y Comisiwn yr adroddiad.

## 12. Adroddiad ar y Gyllideb

12.1. Ystyriwyd yr Adroddiad, dyddiedig 12 Medi 2018, gan y Rheolwr Cyllid. Nodwyd y tanwariant amcangyfrifedig presennol ar gyfer y flwyddyn, ac ystyriwyd y prif feysydd lle ceir tanwariant a'r rhesymau am hynny. Nodwyd y byddai'r cytundeb arfaethedig ar gostau prydles newydd yr adeilad yn rhoi darlun mwy eglur o wariant yn y dyfodol.

Hefyd, byddai angen cadarnhad o wariant refeniw ar y trefniadau TGCh newydd a thrafod gwariant cyfalaf ychwanegol posibl gyda'r Is-adran Noddi.

12.2. **Nododd** y Comisiwn yr adroddiad.

## 13. Adroddiad ar y Prosiect Gweddnewid TGCh

13.1. Ystyriwyd yr Adroddiad, dyddiedig 13 Medi 2018, gan y Rheolwr Cymorth Busnes.

13.2. **Nododd** y Comisiwn yr adroddiad.

## 14. Adroddiad ar Gynnydd Arolygon

14.1. Ystyriwyd yr Adroddiad, dyddiedig 13 Medi 2018, gan y Dirprwy Brif Weithredwr.

14.2. **Nododd** y Comisiwn yr adroddiad.

## 15. Unrhyw fater arall

15.1. Nid oedd unrhyw faterion eraill i'w trafod.

**Dyddiad y cyfarfod nesaf: 23 Hydref 2018, yn dechrau am 0830**